## Dyma rai ffurflenni ymgeisio ar gyfer cymryd rhan yn y gweithgaredd rhithwir hwn:

**Arddangosfa ac Arwerthiant Da Byw Gogledd Cymru ar Faes Sioe Môn.** Dyma'r digwyddiad cyntaf o'i fath gan **Gymdeithas Amaethyddol Môn** a threfnwyd y digwyddiad ar gais Ffermwyr. Ar gyfer unrhyw ffermwr sydd am gymryd rhan, y dyddiad cau yw **11 Tachwedd.**

**Rhestr o Ddosbarthiadau** **Ffurflen ymgeisio i wartheg.** **Ffurflen ymgeisio i ddefaid**

**Cystadleuaeth Goginio**: Ymgeisiwch yn un o'r 6 cystadleuaeth goginio. Mae cystadlaethau'n cynnwys: 1. Victoria Sandwich, 2. Bara Brith, 3. Tarten Sawrus gyda chynhwysion, 4. 16 oed ac iau – Swiss Rol Siocled, 5. 12 oed ac iau – Wyneb pizza a 6. 8 oed ac iau – pedair bisged addurnedig.

Dyddiad cau: 23 Tachwedd **Ffurflen gais**

**Arddangosiad Coginio:** Gwahoddir Cogyddion/Pen-cogyddion i ymddangos yn fyw ar lwyfan Wythnos Fwyd Môn fydd yn darlledu ar Facebook Live. I gymryd rhan, mae angen i ni wybod pwy ydych chi, beth ydych chi'n mynd i'w goginio, pa ddiwrnod ac amser ac mae angen i'r pryd hyrwyddo cynnyrch lleol e-bostiwch blas@welshproduce.com

Dyddiad cau: 11 Tachwedd e-bostiwch blas@welshproduce.com

**Teithiau/Gweithdai Rhithwir:** Mae Cynhyrchwyr Bwyd a Diod yn cael eu gwahodd i egluro sut y caiff eu cynnyrch ei wneud, cyfarfod y tîm, sut y dylid ei weini, ble y gellir ei brynu. Gellir naill ai wneud y gweithgaredd hwn drwy'r llwyfan 'Fyw' a'i fwydo drwodd i Facebook Live neu gellir ei drefnu fel gweminar sy'n cael ei recordio ac yna ei huwchlwytho ar gyfryngau cymdeithasol i bawb ei gweld.

Dyddiad cau: 11 Tachwedd e-bostiwch blas@welshproduce.com

**Cyfarfod y Cynhyrchydd**: Bydd y cynhyrchwyr ar gael gyda'i gilydd ar gyfer sesiwn ar-lein 'Fyw' awr i gyflwyno eu cynnyrch, sut y dylid eu gweini a sut y gellir eu prynu. Cyrhaeddwch y llwyfan a mynd o amgylch y bythau a siarad yn uniongyrchol â'r cynhyrchydd neu eu gwylio yn dangos y ffordd orau i weini eu cynnyrch.

Dyddiad cau: 20 Tachwedd Ffurflen gais

**Mae croeso i bob syniad:** Mae croeso i bob cynnwys ar gyfer gweithgarwch yr wythnos hon, gellir ei gyflwyno naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg neu'r ddwy. Os hoffech gynnal cwis o'ch tafarn, rhoi taith o amgylch eich fferm i ni, rhwydweithio neu ganu Carolau Nadolig – dathliad o bwy ydym ni yw hwn ac rydym yn gryfach pan fyddwn yn gweithio hefo'n gilydd.

Dyddiad cau: 20 Tachwedd e-bostiwch blas@welshproduce.com